



DEHEUBARTH



DYFED EDWARDS



BETHAN FERCH IDWAL

'Os yw hyn yn troi'ch stumoge, fi ddim am ymddiheuro'

MA' CŴN yn bita cyrff ar stryd fawr Talgarth.

... gwrandewch ...

Afon waed yn tarddu o ddeuddeg postyn ar sgwâr y dre ble mae deuddeg o'n cynghorwyr wedi eu crogi a'u diymysgaru.

... gwrandewch ...

Ond nid nhw yw'r unig gyrff sy'n pwdrû yma.

... gwrandewch ...

Ni fu ymdrech i ddelio gyda'r meirw, dim ond eu gadel. Felly mae'r cŵn yn gwledda ar y perfedd ac ar y cymale sy'n domenni ar y palmentydd.

... gwrandewch ...

Ac ma'r drewdod yn troi fy stumog.

... gwrandewch ...

Bwrir cysgod dros Dalgarth gan gymyle o bryfed. Cnwl i'r meirw yw eu grwnan cyson. Clwyda brain ar y gwifre trydan ac ar grib pob to; miloedd ohonynt—nos o ader.

... gwrandewch ...

Tre i sborionwyr yw hon heddi.

... gwrandewch ...

Syllaf ar y twmpathe pwdredig a meddwl yr union beth y mae pawb sydd yn y neuadd goffa'n feddwl: *Pryd y bydd yn rhaid i ni droi'n gŵn ac yn frain?*

... gwrandewch ...

Bu wythnos ers i'r Mers ymosod, a ninnau ar ganol yr ŵyl: sŵn joio'n sydyn gael ei foddi gan sŵn arswyd. Heidiodd cannoedd ohonynt, ar droed ac miwn cerbyde, dros y ffin i Dalgarth. Ni fu trugaredd. Parodd y tanio cyntaf am awr wrth i'r Normaniaid bladuro trwy siopwyr y bore. Saethwyd pwy bynnag oedd yn yr awyr agored, yn wragedd a phlant, yn hen, yn ifanc.

Hynny oedd dechre'r tomenni.

Cyn hir roedd bron i gant o leia'n farw. Ond nid dyna'r diwedd; dyna'r dechre. Treisiwyd y menywod. Sbaddwyd y llancie. Dienyddwyd y dinion. Didolwyd ni, yn wrywaidd ac yn fenywaidd. Alltudiwyd pob gwryw dros beder-arddeg oed o'r dre. Ni fu hanes ohonynt ers hynny. Nid oes sôn lle'r aethpwyd â nhw.

Roedd Siôn a Rhun yn eu plith. Yn eu mynd, roedd fy narfod. Ond mae gen i Mali, ac mae'n rhaid byw er ei mwyn hi.

Ceisiodd nifer o'r dinion ddianc tra'n cael eu heidio. Sawl un fel Dei Clwt y Bryn, yn geg fawr dros y blynnyddoedd, yn godwr twrw. Dyrnodd filwr a rhedeg. Ond i ble oedd e'n bwriadu mynd? Fe'i daliwyd e gan y Mers a'i guro.

Ond nid y curo oedd y gwaethaf. Nid oedd y curo'n ddim.

Rhaffwyd Dei Clwt y Bryn yn borcyn rhwng dou gerbyd, wrth ei arddyrne ac wrth ei ffere. Sbardunodd y ddou yrrwr eu cerbyde. Ymestynnwyd Dei Clwt y Bryn fel pe bai ar arteithglwyd slawer dydd. Fe sgrechiodd wrth i'r ddou gerbyd yrru ymlaen, ac yn ara deg fe dynnwyd Dei Clwt y Bryn ar wahân.

Tebyg oedd ffawd pob un a geisiodd ddianc. Llosgwyd

rhai'n fyw ar goelcerth. Llifiwyd penne eraill i ffwrdd. Claddwyd rhai'n fyw. Saethwyd y rhai ffodus.

Os yw hyn yn troi'ch stumoge, fi *ddim* am ymddiheuro.

... *gwrandewch* ... dyma'n byd ni.

... *gwrandewch* ... nid oes ffinie i'r ffeidd-dre.

... *gwrandewch* ... ac mae hi'n waeth weithie bod yn fenyw.

Bydde'n well gan nifer ohonom ni'r gwragedd fod wedi cael ein saethu. Ond nid oes tosturi o'r fath yn perthyn i'r Mers.

Gyrrwyd y genethod oedd o leia'n ddeuddeg oed, ac a gysidrir gan gadfridog yn dlws, miwn trycie o'r dre.

'Fe gânt fynd yn wragedd i filwyr y Mers,' medd y faeres Marged ferch Gronw wrth y mame. 'Dyne'r bywyd gore posib iddynt o dan yr amgylchiade.'

Mae cadfridogion y Mers yn dyfynnu'r Beibl. Llyfr Numeri. Duw'n gweud wrth Moses am roi genethod i'w filwyr:

A phob plentyn o'r benywaid y rhai ni bu iddynt a wnaethant â gŵr, cedwch yn fyw i chwi.

Ma' Mali'n ddeg oed. Ma' gen i ofn am fy mywyd amdani hi. Ma' hi'n arswyd i mi ei dychmygu'n cael ei chloi miwn tryc a'i gyrru am byth o'm golwg. Ma' cysgod hyn yn haint arna i. Ond dyma fydd ei ffawd. Dyma yw ein dyfodol. Nid oes bywyd i ni o heddiw ymlaen, dim ond marwolaeth.

Pwy fydde'n credu fis yn ôl y bydde'r fagddu hon wedi cwmpo arnom? Ein paradwys yn ifflon heb rybudd. Pwy fydde wedi meddwl y bydde hyn wedi dod? Y tân hwn o'r Dwyrain; y llid didrugaredd.

Bob nos Galan bydde Siôn a minne'n bwrw golwg dros y flwyddyn aeth heibio, ac yn edrych ymlaen i'r flwyddyn oedd i ddod.

Cyfarfu ni yn y coleg yn Ninesfwr. Yf fi o'r ddinas honno, ma' fe o Dalgarth. Ers y noson gyntaf yn y coleg, rŷn ni wedi cynnal y traddodiad bach hwnnw o edrych mla'n.

'Pwy a wŷr,' arferai weud, 'beth fydd wedi digwydd pan fydde ni'n eistedd yma ymhen blwyddyn?'

A phrin dri mis yn ddiweddarach, rydwi'n llefen yn dawel rhag dychryn Mali. Llefen am fy ngŵr ac am fy mab sydd wedi eu cipio. Llefen am nos Galan gyda Siôn; llefen am ein gorffennol, am ein dyfodol.

Ond dyna fe. Bu'n tir ni, Frycheiniog, eto'n glustogwlad. Gwladwriaeth ragod, rhwng y Mers a Deheubarth. Bychan ŷn ni. Pitw i'n cymharu gyda chyhyre Rhys ap Tewdwr a ffydd y Mers; eu fflame, eu gynne, eu cemege—eu croes.

Trowyd Brycheiniog yn faes cad gan ddou elyn, ac fe unodd ein milwyr gyda Rhys ap Tewdwr. Ond enciliodd ein lluoedd. Dianc yng ngwyneb grym y Mers. Nid oedd arfe Deheubarth yn ddigon i erlid y Normaniaid o'n gwlad. Ildiodd Rhys. Sathrwyd ar ei fyddin.

Ac yna bu lladdfa wrth i'r Mers ddienyddio carcharorion rhyfel, ein bechgyn. Recriwts ieuanc o Ddeheubarth a Brycheiniog. Darlledwyd y dienyddiade torfol ar y We. Y crwts ar eu glinie o flaen ffos ddofn. Lladdwyr y Mers tu ôl iddynt gyda'u gynne. Ac yna'r tanio, a'r crwts yn cwympo. Rhai'n fyw o hyd; fe allwch eu gweld ar y darllediad yn gwingo. Ac yna daw jac-codi-baw i rawio'r cyrff—y byw a'r meirw—i'r ffos. Caiff y rhai sydd heb eu lladd eu claddu'n fyw; y baw yn orchudd drostynt. Bellach, mae miloedd o gyrff o dan bridd Brycheiniog. Miloedd o'n llancie. Mynwentydd yw ein meysydd. Sut y bydd hi'n bosib i ni grwydro'n gwlad mwyach gan wybod be sydd o dan ein traed? Ond a oes gwlad i'w chrwydro? A fydd gwlad?

Rŷn ni yng ngafel gelyn. Ein dinion wedi eu difa. Gwlad o wragedd ŷn ni. Gwlad fenywaidd dan gysgod gwrywod arfog.

‘Pidiwch â gwadu eu milwyr,’ medde Marged ferch Gronw. ‘Felly cewch fyw. Trwy ymostwng.’

Bydde’n well gen i farw. Ond ni alla’i farw.

Fi’n edrych ar Mali, ac mae gwefr o ofn yn treiddio trwyddaf. Beth ddaw ohono ni? Ma’n bywyde ar ben. Brwydraf y dagre trwy frathu fy ngwefus. Ni all Mali weld Mami’n drist. Ond ma’ fy arswyd yn anferth. Tyfiant adwythig yn fy mrest. Yf fi’n anial; mae Brycheiniog yn anial. Y byd wedi’n hanghofio. Ein bywyde bychain yn ddim wrth i’r gwledydd mawr ymgynnull yn eu siopie siarad tra mae cyflafan yn digwydd.

Edrychaf trwy ffenest y neuadd goffa. Ma’r tawch yn eich taro fel ton; arogl sy’n eich atgoffa fod pob dim yma’n farw.

Nid yw Talgarth ar y mapie mwyach.

Trochir yr awyr gan fwg du. Mae’r lludw o’r llosgi yn lledaenu dros fynyddoedd Cambria.

Un gobaith sydd: rhaid i ni wneud ein ffordd tuag at Rhwng Gwy a Hafren. Ma’r Cenhedloedd Unedig yno, a’r Groes Goch. Ma’nt wedi sefydlu lloches i ffoaduriaid yn Aberedw; gwersyll diogel.

Ffoaduriaid: pwy fydde’n credu ein bod ni’n ffoaduriaid? Fi’n athrawes; Siôn yn gyfrifydd. Ein plant yn canu ac adrodd yn yr eisteddfode. Gwersi telyn Mali; geme rygbi Rhun. Pryde bwyd gyda chymdogion a chyfeillion sy’n feddygon, yn gyfreithwyr, yn feirdd.

Sut y daeth hyn i’n dyddie ni?

Yr her gyntaf yw dwyn perswâd ar Mali fod yn rhaid i ni ddiengyd o Dalgarth ac ymuno gyda’r ffoaduriaid eraill.

Ond ma' hi am aros yn Nhalgarth. Creda fod Dadi'n dod gartre. Taera hefyd y bydd Rhun yn dychwelyd i dynnu ei choes. Brwydraf fy nagre wrth weud bod Dadi'n ddewr ac yn ymladd ochr yn ochr â gwŷr Brycheiniog. Ond nid oes brwydr. Nid oes gwŷr. Nid oes Brycheiniog. Nid oes—

Ni allaf weud ei enw.

Ma' fflam y gannwyll wedi ei difa. Yn ni miwn tywyllwch. Uwch ein penne mae awyrenne'n rhuo. Ar gyrion Talgarth mae gynne'n cyfarth. Trwy'r strydoedd mae tancie'n rhowlio. O gartref i gartref, mae milwyr y Goron yn arthio. A ninne'n celu rhag y gad. Celu yn y neuadd goffa. Celu ac aros ein tro. Aros i'r milwyr ddod a dewis un ohono ni, fel y ma'nt yn dod o fore gwyn tan nos; dod a dewis.

Ma'r Mers yn llu ffyrnig, wedi eu trochi miwn ffydd a fflame. Ma'nt yn rym digyfaddawd sydd am ein dar fod ni. Ein dar fod ni trwy roi eu hepil yn ein crothau. Balcaneiddio Cymru yw eu bwriad. Ein tynnu'n gribe, er ein bod ni'n gribe i gychwyn. Rŷn ni yng ngyddfe'n gilydd, ac wedi bod erioed; wedi bod ers cyn Macsen.

Gwynedd â'i bryd ar ymledu. Deheubarth â'i hawydd am arfe. Powys â'i galw am gyfaddawd.

Ac yna ninne'r rhai bychain; yn fach, ond ag awch i fod yn fwy: Brycheiniog, Morgannwg, Gwent, Rhwng Gwy a Hafren.

A'r fan honno yw'n hafan ni. Rhwng Gwy a Hafren. Ein gobaith. Ein goleudy. Rhaid ymdrechu.

Erchyll yw cydnabod na welaf i mo Siôn a Rhun fyth eto. Ceisiaf sgwrio'r gwir hwnnw o'm dychymyg. Mentraf fyw celwydd o hyn mla'n; bodoli ar chwedle ac *Un tro ...*

Yf fi'n oer. Y neuadd heb drydan ers dyddie. Brycheiniog heb bŵer. Fy nghot hir dros sgwydde Mali. Y fechan yn

crynu. Y fechan yn conan. Moyn bwyd, a dim bwyd ar gael. Yf fi heb gysgu'n iawn ers awr y terfysg cyntaf. Pryderu am Mali. Ofni am fywyde Siôn a Rhun. Be ddaeth ohonynt? Mae adroddiade dychrynlyd wedi'n cyrredd am ffawd ein dinion a'n bechgyn. Caeaf fy llyged. Erlidiaf y gwir brwnt. Coffeidiaf y celwydd: maent yn ddiogel yn rhywle—miwn gwersyll yn bwydo.

Dyma yw fy chwedl; dyma yw fy *Un tro* ... Ond mae'r gwir creulon yn gorchfygu, a'r gwir creulon yw: Pwy sy'n hidio am Frycheiniog? Pwy ddaw i'n hamddiffyn ni?

Ma' Deheubarth wedi'n defnyddio fel maes rhyfel. Ma' Gwynedd yn troi ei chefn ar ein ffoaduriaid. Ma'r Mers yn ein sgwrio o'r mapie. Ma'r byd yn tindroi ac yn trafod tra mae trengi.

Pwy ddaw i sefyll ar ran Mali a'r plant? Pwy ddaw i arbed ein difodiant?

Nawr, daw milwyr i miwn, yn feddw, yn chwerthin, yn llygadu, yn dewis.

... *gwrandewch* ...

Fy newis i.

1

Y BACHGEN LLURGUNIEDIG

EBRILL YM mhedwaredd flwyddyn teyrnasiad William Rufus. Pistyllia'r glaw ar wersyll milwrol: pencadlys y Mers yn Honddu, Brycheiniog. Maes wedi ei orchuddio gan bebyll ac unedau milwrol. Cerbydau mewn rhesi: jîps a thanciau, cerbydau rhag-archwilio a hofrenyddion.

Yn un o'r pabelli—uned i'r uwch-swyddogion—pora'r Barwn Gerald FitzWalter, un o gadfridogion lluoedd y Mers, drwy adroddiadau o'r ffrynt-lein. Mapiau o Frycheiniog ar y ddesg o'i flaen. Y tymheredd yn tarfu arno. Oer ar y diân yn yr uned.

Ebrill a fling, go iawn, meddylia.

Rhwbia ei ddwylo. Chwythu iddynt er mwyn eu cynhesu. Edrych ar ei oriau. Bron yn wyth. Â'n chwys oer: mae ei gyfweliad gyda Gwynfardd Brycheiniog ar fin cael ei ddarlledu.

Bardd a sylwebydd poblogaidd ar deledu Cymru oedd Gwynfardd Brycheiniog. Andros o seléb yng Nghymru. Roedd o'n enwog am bechu'r awdurdodau a herio grym; siaradwr plaen gyda thwtsh o'r awen. Poblogaidd ymysg y werin, a wyneb cyfarwydd ar y teledu—a llais amlwg ar y

radio—ers degawd. Dena ei sioe, *Y Gri*, fwy o wylwyr nag unrhyw raglen arall ar sianeli Cymru. Ymdrechodd y Mers i'w dawelu. Methiant fu hynny hyd yn hyn. Ond ers concro ardal enedigol y bardd, a'r ddinas lle'r oedd ei stiwdio, roedd rhai o'r barwniaid wedi addo gosod ei ben ar bolyn. Am y tro, beth bynnag, cafodd rwydd hynt i harthio.

Wrth i fiwsig agoriadol *Y Gri* lenwi'r uned, roedd gan FitzWalter awydd troi'r set i ffwrdd, anghofio'r sgwrs; anwybyddu'r ffaith iddi gael ei recordio'n gynharach y diwrnod hwnnw.

Ond byddai'r brenin yn gwylio. Byddai ei ymgynghorwyr yn gwylio. Byddai'r Tywysog Harri'n gwylio. Byddai merched y llys yn gwylio. Tynnu'r cyfweliad yn griau. Chwerthin am ben FitzWalter. Galw am ei gwmp. Hel clecs mai hanner dyn ydoedd, a'i fin fel un llygoden.

Pendronodd; corddodd.

'Noswaith dda,' meddai Gwynfardd Brycheiniog. Gwisgai siwt las Hugo Boss, crys gwyn a thei silc coch. Roedd ei wallt du'n slic, wedi ei gribu'n drwsiadus. Disgleiriai ei lygaid brown; yn denu, yn fflyrtian. Roedd tua deugain oed, yr un oed â FitzWalter, a theimlodd wefr o genfigen tuag at y darlledwr golygus a phoblogaidd oedd ar fin ei ddifrio.

Aeth y bardd yn ei flaen.

'Mae'n wyth o'r gloch. Croeso i rifyn yr wythnos hon o'r *Gri*. Un stori sy'n hawlio'r sylw heno. Un stori sy'n *mynnu*'r sylw. A daw'r stori honno o feysydd rhyfel Brycheiniog. Mae hi'n nos ac yn waed ar Ddeheubarth. Fe'i craswyd hi gan oresgynwyr o'r Mers. Mae lluoedd Rhys ap Tewdwr, Brenin Deheubarth, wedi eu llarpio. Yn ymuno gyda fi o Frycheiniog heno mae'r Barwn Gerald FitzWalter, un o

gadfridogion lluoedd y Mers. Noswaith dda.'

'Noswaith dda,' meddai FitzWalter, ac mae'n gweld nawr pa mor nerfus ydoedd yn ystod y cyfweliad. Mae'n gwrido wrth wyllo. Mae'n llacio'i goler. Ond powlia'r chwys o hyd.

'Barwn, ble mae Rhys ap Tewdwr?' gofynna'r darlledwr. 'Nid oes hanes o Frenin Deheubarth ers y frwydr. Ych chi wedi ei ddal, neu wedi ei ladd?'

'Wel, darlun digon dryslyd—'

Mae'r cyflwynydd yn torri ar ei draws: 'Pryd fydd y darlun yn llai dryslyd?'

'Hynny'n anodd—'

Eto ar ei draws: 'Ydi'n loes i chi fod eich lluoedd yn cam-drin trigolion?'

'Does yna ddim tystiolaeth fod—'

Gan dorri ar draws y barwn eto fyth, gofynna'r darlledwr: 'Yw milwyr y Mers yn cyflawni troseddau rhyfel, Farwn FitzWalter? Yn nhw'n dienyddio bechgyn? Yn nhw'n treisio genethod?'

Berwai gwaed FitzWalter. *Deirgwaith*, meddyliodd FitzWalter. *Deirgwaith fe dorrodd hwn ar draws cynrychiolydd y Goron.*

Dywedodd: 'Os ydyn nhw, mi gânt eu cosbi.'

'Gan bwy, Farwn?'

'Gan Ddeddf y Brenin.'

'Mae'r brenin ar goll.'

'Un brenin sydd. William yr Ail. *Dei Gratia Rex Anglorum*. Trwy ras Duw'n frenin arnom, ac ... mae'r lein yn wael ... helô ... alla i ddim clywed ...'

'Mae'n ddrwg gen i. Rŷn ni wedi colli'r Barwn FitzWalter. Yn y cyfamser, fe awn ni at y tywydd.'

Trodd FitzWalter y teledu i ffwrdd. Dim awydd clywed am law mân ym Mrycheiniog arno. Roedd am i'r tir agor

dan ei draed. Teimlai lygaid y miloedd arno, clywai eu sarhad. Dychmygai'r Brenin William a'i ymgynghorwyr yn Llundain yn lladd arno.

Daeth twrw o'r tu allan, rhegi a rhuo. Hyrddiodd y Cadfridog Bernard Newmarsh i mewn trwy'r drws. Tarw o ddyn. Blaidd brwnt. Llew William oedd hwn, bob tro'n barod i ddangos ei ddannedd—ac i'w defnyddio. Llusgodd fachgen llurguniedig mewn cadwynau ar ei ôl. Roedd y llanc—oedd ar draws un ar bymtheg, efallai'n ieuengach—yn noeth at ei ganol ac yn friwiau drosto. Wedi cael ei dolcio a'i drywanu yn ddirugaredd gan arteithwyr Newmarsh. Dau bwl gwag lle'r oedd ei lygaid, a gwaed yn diferu o'r pyllau. Ac yn llaw Newmarsh roedd baner waedlyd. Arni, roedd llew aur ar gefndir coch. Baner Deheubarth.

Gwenodd Newmarsh ar FitzWalter yn sbeitlyd.

'Mi wnaeth y bardd dwy a dimai 'na ffwl ohono ti, Gerald,' meddai. 'Hidia di befo. Mi garcharwn ni bob darlledwr sy'n lledu newyddion ffug pan gawn ni reolaeth lawn ar y wasg a'r cyfryngau.'

Gwingodd FitzWalter a chyfeirio at y bachgen llurguniedig.

'Pwy yw hwn?'

'Lleidr ydi o, wedi ei ddal yn dwyn y faner.'

'Onid ei faner o yw hi yn y lle cynta?'

'Baner Deheubarth, Gerald. Rapskaliwn o Frycheiniog ydi hwn. A Thŷ Normandi bia'u baneri nhw i gyd. Baner Deheubarth, baner Brycheiniog, baneri Cymru gyfan cyn bo hir.'

Mudferwai tymer FitzWalter.

'Rydan ni wedi ennill y rhyfel, Newmarsh. Mae'n bryd i ni ennill yr heddwch. Mae'r byd yn ein gwyllo, cofia hynny.' Cyfeiriodd at y llanc a dweud, 'Cawn ein cosbi am hyn,

does dim dwywaith.'

'Gorfod gwranddo ar dy rwtsh di byth a beunydd ydi'r gosb waethaf, meddai Newmarsh. 'Dos i weu at Ferched y Wawr. Mi wna'i ryddhau llid Duw ar Ddeheubarth a Brycheiniog. Bydd y Mers yng nghroth pob merch ac mi sbadda'i bob gwryw. Mi sgrwbia i'r teyrnasau yma o'r mapiau, FitzWalter. Newid y ffiniau, a chreu Mers newydd ar feddau hynafiaid y Cymry'ma.'

Ysgwydodd FitzWalter ei ben, dim egni ganddo am yr artaith bellach. Dywedodd, 'Mae teulu brenhinol Deheubarth o dan warchae yn Nineswr. Mi hawliwn ni'r brifddinas yn heddychlon. Os oes newyddion am y Brenin Rhys, noda hynny yn yr adroddiadau. Mi fydd cyflwyno'r teyrn yn fyw ac yn iach gyda'i deulu ar y teledu yn hwb i'n hymdrechion i ennill tryst y brodorion.'

Aeth FitzWalter allan i'r nos.

*

Ar ôl i FitzWalter adael y babell blinciodd Newmarsh, gwegiodd. Hen arswyd yn treiddio drwyddo. Ysgwydodd ei ben i chwalu'r atgof a'i atal rhag gwasgu'r hyder ohono.

Dychwelodd i'r presennol ac i'r weithred oedd yn iachawdwriaeth iddo: y tywallt gwaed oedd yn ei buro a'i ddod yn nes at Dduw.

Aeth ati i lapio'r faner waedlyd am gorn gwddw'r bachgen llurguniedig.

'Wyddost ti be ddigwyddodd i'r Arglwydd Rhys, boi bach?' gofynnodd i'r carcharor ifanc. 'Mi wn i, yli.'

Crogodd Newmarsh y bachgen llurguniedig gyda'r faner.

Dinefwr, prifddinas Rhys.

Roedd ei ferch, y Dywysoges Nest, yn ei stafell ac yn gynddeiriog. Merch ddwy ar bymtheg oed oedd hi, ac yn ddall i'r byd gwaedlyd o'i chwmpas, yn fyddar i'r meysydd rhyfel, yn ddideimlad i'r bechgyn llurguniedig.

Yr unig beth oedd ar feddwl Nest, hyd yn oed â'i gwlad yn cael ei darnio, oedd parti.

Ac roedd un ar y gorwel—i fod, beth bynnag; dibynnu ar wleidyddiaeth, ar hyn o bryd; ar fater bach o ryfel.

Ond ni hidiai Nest am hynny. Y cwestiwn oedd yn ei herio heno oedd:

Beth yffi am wisgo i'r parti?

Roedd steilydd Nest yno hefyd. Arferai'r wraig grino pan agorai Nest ei cheg. Ni feiddiai ddweud gair o'i phen fel arfer. Merch Rhys oedd yn gwybod orau. Ac roedd mynd yn groes iddi'n peri i'r dywysoges fynd i natur. Profodd y steilydd lid ei meistres ifanc nifer o weithiau.

Tyrchodd Nest drwy ei chypyrddau dillad yn ddiamynedd. Syllodd y steilydd â'i stumog yn troi. Gwaeddodd Nest ar dop ei llais:

'MAAAAAAM!'

Daliodd ei gwynt am eiliad, ac yna rhyddhaodd waedd arall:

'MAAAAAAM!'

Unwaith eto daliodd ei gwynt, ac unwaith eto daeth ei sgrech:

'MAAAAAAM!'

Ond ni ddaeth neb, ni ddaeth 'Mam', a phendronodd Nest.

Meddyliodd: *Pan fi'n galw mae rhywun yn dod.*

Syllodd ar y drws. Arhosodd am rywun. Ond ni ddaeth neb. Rhythodd ar y steilydd. Stompiodd ei thraed. Mynd yn stranciog. Ysbeiliodd trwy'r ffrogiau ar y rheseli dillad. Taflodd ffrog ar ôl ffrog i freichiau'r steilydd. Honno bron â'i chladdu o dan y domen o wisgoedd drud—Balmain, Dolce & Gabbana, Stella McCartney.

'Rili, *rili* hoffi hon, *rili* hoffi hon, rili, *rili* hoffi hon, rili—Na, na, na, ie, na, ie, na—Sgidie!'

Edmygodd Nest bâr o Louboutins. Mwythodd bâr gan Steve Madden. Cwtsiodd bâr gan Mary Katrantzou. Byddai'n gwisgo'r rhain i'r parti. Ond pa bynnag esgidiau oedd am ei thraed, pa bynnag wisg oedd am ei chorff, roedd un peth yn sicr:

Hi fyddai'r bertaf oll yn y ddawns.

Hi oedd y bertaf oll bob tro.

Roedd carfan fechan o weriniaethwyr yn Neheubarth. Arferant ryddhau fideos ar TikTok ac Instagram yn protestio'n erbyn y teulu brenhinol. Ambell dro byddent yn darlledu fideo ar ôl parti i geisio datgelu afradlonedd yr ieuenctid brenhinol. Byddent yn cyhoeddi clip o Nest yn ei chrandrwydd—a gyhoeddid ar-lein neu'n y wasg—gyda geiriau sarhaus amdani.

Datganodd un post diweddar ar Insta fod 'ysgol wedi ei dymchwel er mwyn i'n tywysoges gael gwisgo'r pâr hwn o esgidiau Jimmy Choo'.

Taerodd un arall y llynedd fod 'teuluoedd yn llwgu er mwyn i Nest gael gwisgo ffrog gan Stella McCartney'.

'Newyddion ffug,' oedd ymateb y llys.

'Crogwch nhw,' oedd galwad rhai o frenhinwyr mwy eithafol Deheubarth.

Ond dywedai acolitaiid Nest: 'Gwell gwario ar y teulu brenhinol nag ar eu deiliaid, Arglwyddes. Beth yw deiliaid

heb frenin? Byddai Deheubarth yn cwmpo petai hi'n weriniaeth. Gwell aberthu deg o ddeiliaid nag un aelod o'r teulu brenhinol. Ac rŷn ni mewn cyfnod o ryfel. Rhaid i bobl aberthu. Mynd heb ddim. Dognau argyfwng yn ystod rhyfel. Dognau i drigolion.'

Roedd y neges i'r deiliaid yn glir:

'Dim tato heno, blant, rhaid i Ferch Rhys edrych ei phertaf yn y ddawns. Dim bwledi heddi, filwyr, rhaid i Ferch Rhys gael trin ei gwallt ar gyfer y *premiere*. Rhaid i chi fynd heb ddim i'w harddwch hi godi eich calonau yn ystod y dyddie cythryblus rhain.'

Taflodd Nest y ffrogiau. Tynnodd wyneb a chonan wrth ei steilydd:

'Mae'r rhyfel wedi difetha pob dim. Pam na all Dadi ennill? Pam na all drechu'r Mers a'u hanfon gartre? Ac yna fe gaiff *e* ddod gartre, dewis gŵr i mi. Fi yw Merch Rhys! Gas gen i ryfel. Dinion a'u rhyfel. Ymladd dros be? MAAAAAM! MAAAAAM! Ble mae fy mam?'

Ar y gair, agorodd y drws a daeth y Foneddiges Gwladys i mewn. Cyrtsiodd y steilydd. Anfonodd Gwladys hi mas. Brysiodd y wraig o'r stafell; roedd hi'n falch o adael.

Roedd gan Mami gês ar olwynion a gofynnodd Nest iddi: 'Mami, ble ti 'di bod? Fi moyn dewis ffrog ar gyfer y parti heno i fynd 'da'r esgidie yma. A fi moyn cyngor ti. Ble ti 'di bod?'

Dywedodd Gwladys: 'Rhaid i ni adel Dinefwr. Ble mae dy ddillad ymarferol di, Nest? Ble mae dy ddillad plaen di?'

Dechreuodd Gwladys fynd trwy gypyrddau dillad ei merch.

'Dillad plaen?' meddai Nest. 'Fi yw Merch Rhys. Nid oes gen i ddillad plaen, Mami. Beth yt ti'n feddwl, "gadel Dinefwr"? Beth yt ti'n wneud?'

‘Paco.’

‘Paco? Yn ni’n mynd i galifantan? O na! Yf fi ddim moyn mynd i weld y milwyr eto. Fi ddim yn gorfod, nagw? Nid i’r ysbytai rhyfel eto, Mami. Y dinion yn ddarne.’

‘Dy ddinion di.’

‘Ond *darne*, Mami. Amrwd. Eu clwyfau’n drewi. Y griddfan. Troi fy stumog i, Mami. Paid â—’

‘Fydd dim rhaid i ti’r ffiten’—roedd llais Mam fel llafn. ‘Mae bom wedi bwrw un o’n hysbytai rhyfel y bore yma. Y bechgyn yn farw. Trugaredd, mae’n debyg. I *ti*, ie?’

Ni ddaeth geiriau o enau Nest. Teimlai gywilydd. Ond roedd gas ganddi weld y *darne* dynion. Pam oedd rhaid iddi *hi* ddiodde erchylltere? Hi oedd—

‘Brysie!’ medde Mami gan daflu dilladau i’r cêś.

Gofynnodd Nest: ‘Ble yn ni’n mynd? Yw Dadi’n dod? Yw’r rhyfel ar ben?’

Llonyddodd Gwladys; sefyll fel delw. Syllodd i fyw llygaidd ei merch.

‘Mae’r rhyfel wedi ei cholli,’ meddai.

‘Beth?’

‘Nest annwyl, mae dewrion Deheubarth yn esgyrn.’

‘Beth?’

‘Mae ein gwlad yn lludw. Dere.’

‘Mami, mae parti Sioned heno. Bydd Owain yno.’

Owain ap Cadwgan oedd ffefryn Nest—ar hyn o bryd.

Dywedodd ei mam: ‘Mae Owain a phob mab uchelwr yn Neheubarth wedi diengyd neu wedi eu dienyddio, Nest.’

‘Owain? Na! Fi’n ei garu. Yn ni am briodi.’

Sgyrnygodd ei mam a dweud: ‘Fe briodi ddyn o ddewis dy dad, y ffiten.’ Ond yna tawelodd Mami, y lliw yn mynd o’i bochau. ‘Rhaid i ni fynd,’ meddai.

Plethodd Nest ei breichiau, tynnu wyneb oedd yn gyfarwydd i'w mam ers i'w merch fod yn ddigon hen i bwdu.

Dywedodd Nest: "Sa i'n moyn mynd. I ble? 'Sa i'n moyn—"

'I'r Iwerddon. Mae Gruffydd wedi hwylio neithiwr. Dy frawd yn ddiogel. Mae Hywel a tithe'n mynd heddi. Finne yfory.'

'Na! Fi ddim yn mynd. Dinefwr yw fy nghartre.'

'Bydd Dinefwr yn cwmpo heno.'

'Mae'r rhyfel yn bell, Mami. Ym Mrycheiniog. Yn bell, bell. Ble mae Dadi? Dere ag e'n ôl o'r rhyfel. Dere ag e'n ôl.'

Roedd eiliad o dawelwch, ac yna, mewn llais bach dywedodd Mami: 'Nid oes hanes o dy dad.'

Diferodd dagrau o lygaid Nest. Roedd gwirionedd y byd yn rhwygo trwy'r gorchudd o anwybodaeth oedd yn llen ddiogel o'i chwmpas. Daeth rhyw sŵn ohoni; sŵn cena anifail.

'Mami?'

'Mae e wedi ei golli ymysg y mwrddro.'

'Na, Mami ... fi yw ... fi yw Merch Rhys ... fi yw ... pwy yf fi os nad oes Rhys? Heb ei ole, pwy yf fi? Mami? Beth am yr esgidie yma ...'

Roedd hi'n strancio nawr, yn cael pwl o dymer. Cythrodd ei mam ynddi, ei hysgwyd.

'Nest, gwrandda arna'i. Mae Deheubarth wedi bennu. Mae Dinefwr heno heb ŵr, heb dad, heb deyrn. A hebddo, rŷn ni'n ysbeiliau rhyfel. Nid brenhinol yn ni, Nest: gwastraff. Dere'n gloi!'

Llusgodd ei mam Nest o'r stafell.

'MAAAAAMI!' sgrechiodd Nest.

*

‘Mae Dinefwr wedi cwmpo, ac mae Deheubarth mewn düwch,’ datganodd Gwynfardd Brycheiniog ar TikTok mewn fideo.

Paciodd trigolion y brifddinas eu bywydau mewn cerbydau a dianc. Roedd y traffig yn dew ar y priffyrdd. Syrthiai bomiau’r Mers ar y confoi. Roedd milwyr y Mers yn arestio a herio a dienyddio.

Clodd gweddill y boblogaeth eu drysau a gweddïo ar y Duw a’u hanwybyddodd tra oedd y Mers yn eu llosgi. Ac fe anwybyddodd y Duw hwnnw eu ple drachefn.

Malodd y Mers eu drysau. Llusgwyd y trigolion i’r strydoedd. Didolwyd hwy, yn ferched, yn ddynion, yn blant.

Datganodd y Cenhedloedd Unedig eu ‘pryder’ a galw ar dywysogaeth Gwynedd i dderbyn ffoaduriaid o ardaloedd y brwydro.

Dywedodd yr Unol Daleithiau nad oedd hi’n bolisi i ymyrryd â materion mewnol cynghreiriaid.

Atgoffodd yr Undeb Ewropeaidd lywodraeth Tŷ Normandi ei bod yn llofnodydd Deddfwriaeth Hawliau Dynol.

Mynnodd y Groes Goch a Chymorth Cristnogol fod ganddyn nhw’r hawl i weld ffoaduriaid a gwystlon.

Anwybyddodd y Mers bob cais.

*

Neuadd fawr Dinefwr, plasty i ddisgynyddion Rhodri Mawr gynt, stabl i anifeiliaid Normanaidd bellach.

Roedd FitzWalter a Newmarsh yn y neuadd, tyndra amlwg rhwng y ddau wrth i'w lluoedd ddarnio Dinefwr.

Dywedodd FitzWalter: 'Os digwydd i'r byd edrych yn ddig ar ein concro ac anfon cynghrair i'n herlid ni o Ddeheubarth, wna i ddim sefyll yn eu herbyn.'

'Dwyt ti ddim yn ddyn,' meddai Newmarsh.

'Dwyt ti ddim yn filwr,' meddai FitzWalter.

Gwichiodd radio symud-a-siarad Newmarsh, ac atebodd y cadfridog:

'Newmarsh yma ... Y gweision? ... Cadwch y gwagedd a'r genod ... Alltudiwch y bechgyn a'r dynion, pawb sydd dros bedair ar ddeg oed—i'r gwersylloedd â nhw ... Y bechgyn bach? ... Gwnewch goelcerth—'

Tarodd FitzWalter y radio o'i law. Tynnodd Newmarsh ei Heckler & Koch o'i wain, anelu'r baril at wyneb FitzWalter.

'Tania,' meddai FitzWalter. 'Well gen i'r fagddu na hyn. Tania.'

Rhoddodd Newmarsh y gwn i lawr. Gwenodd. 'Mwy o sbort dy weld yn gwingo, FitzWalter.'

Gwichiodd ei radio symud-a-siarad eto.

'Newmarsh yma ... Iawn ... Lle'r roedden nhw? ... Na, peidiwch â cyffwrdd pen bys ynnddi hi na'i mam ... Dyna ydi'r sôn, uffar o beth handi ... Y mab fenga? Sbaddwch o.'

Crynod FitzWalter. Teimlai'n ddiymadferth.

Dwyt ti ddim yn ddyn.

Efallai fod Newmarsh yn llygaid ei le. Nid oedd ganddo'r stumog bellach. Roedd y gwaed yn ormod iddo.

'Gwraig Rhys a'i ferch yn cuddio mewn cwpwrdd. Dyna i ti frenhinol,' meddai Newmarsh.

'Paid ti â'u niweidio nhw,' meddai FitzWalter.

Agorodd drysau'r neuadd fawr. Daeth milwyr i mewn.

Ac o dan warchae'r milwyr, Gwladys, gwraig Rhys ap Tewdwr, a'i merch, Nest.

Syllodd FitzWalter ar Nest. Agorodd ei geg. Ni allai dynnu ei lygaidd oddi arni. Aeth gweddill y byd yn atgof pell. Roedd hi fel yr haul ar y dydd cyntaf. Ac roedd yr haul yn llewyrchu bron pob dyn yn y neuadd, dwsinau'n cael eu dal ym mhelydrau'r dywysoges.

'Pwy sy'n gyfrifol yma?' mynnodd Gwladys.

'O, mae hon yn geg fawr,' meddai Newmarsh.

'Y chi sy'n gyfrifol?' meddai'r wraig.

Roedd hi ar draws ei deugain oed. Godidog o hyd, er bod mamolaeth wedi dweud ar ei chorff. Gallai FitzWalter ddeall o ble cafodd Nest ran o'i genynnau perffaith.

'Foneddiges,' meddai Newmarsh, 'caewch eich trap neu mi rwyga'i eich tafod chi o'ch pen chi a'i bwydo i'ch tywysoges.'

Syllodd Newmarsh ar Nest. Gwywodd ei wên. Daliwyd yntau am eiliad yn ei phelydr. Ymdrochodd ynddi; ymgolli ynddi.

A chymerodd FitzWalter fantais o ddryswch ei gyd-gadfridog.

'Foneddiges,' meddai, 'gadwch i mi ymddiheuro—'

'Dim angen ymddiheuro, FitzWalter,' meddai Newmarsh, yn dod ato'i hun. 'Dyma'r Cadfridog Farwn FitzWalter, Foneddiges. A fi yw'r Cadfridog Farwn Newmarsh, pennaeth lluoedd Ei Fawrhydi William yr Ail o Dŷ Normandi ym Mrycheiniog a Deheubarth. Fi yw'r un efo'r asgwrn cefn.'

'Maddeuwch i ni, Foneddiges, am eich gorchfygu mor greulon,' meddai FitzWalter.

'Ni fu erioed orchfygu anwes, syr,' meddai'r wraig, ei hiaith yn ffurfiol ac yn frenhinol. 'Ond fe gysidraf

faddeuant pan fyddwch chi a'ch bleiddiaid gartre yn eich gwâlau gyda'ch gwragedd. Hwn yw'n cartref ni.'

Daeth rhyw fân chwerthin sbeitlyd o gorn gwddw Newmarsh. 'Cell fydd eich cartref cyn bo hir, Foneddiges. Cell, ac efallai gwmni milwr bob hyn a hyn.'

Edrychodd y foneddiges i lawr ei thrwyn arno.

'Nid *chi* fydd y milwr, dwi'n cymeryd. Oes gan rywun fwgyn?'

Edmygai FitzWalter dafod finiog a dewrder sarhaus y foneddiges, er bod ei gwlad wedi ei choncro a'i brenin wedi ei golli.

Dywedodd: 'Foneddiges, ar ran Ei Fawrhdy—'

Torrodd y wraig ar ei draws.

'Nid chi yw llais Ei Fawrhdy, syr. Oes ganddo chi fwgyn?'

Cynigiodd FitzWalter sigarét iddi a dweud: 'Rydwi'n cynrychioli—'

Taniodd FitzWalter y sigarét. Smociodd y foneddiges.

'Un brenin sydd yn Ninefwr,' meddai gan chwythu mwg. 'Mae'n brwydro gwehilion y Gororau ar hyn o bryd. A phan nad yw ef na'i fab hynaf yma, y fi sydd yn ei gynrychioli.'

Ysmygodd y Foneddiges Gwladys fel brenhines, yn grand ac yn ffroenuchel.

'Wyddoch chi lle maen nhw?' gofynnodd Newmarsh. 'Eich meibion? Maent yn elynion i'r Goron a'u lle yw mewn dalfa.'

'Foneddiges,' meddai FitzWalter, 'mae Gruffydd wedi dianc i'r Iwerddon ac mae hi'n allweddol ei fod yn dychwelyd i dalu gwrogaeth.'

'Ac mae bach y nyth,' meddai Newmarsh, 'yn sgrechian am ei fam, ac am ei chwaer—ac am ei geilliau.'

Chwarddodd Newmarsh. Chwarddodd y milwyr. Gwegiodd y Foneddiges Gwladys. Syrthiodd y sigarét o'i gwefus. Cysurodd Nest hi ac wylo.

'Beth ych chi wedi wneud?' gofynnodd y dywysoges. 'Dwedwch wrtha i. Fi yw Merch Rhys—'

Cythrodd Newmarsh ynddi. Gwingodd Nest. Gwthiodd Newmarsh ei wep i'w hwyneb.

'Merch pwy? *Merch pwy?* Merch neb, yli. Merch carcas wyt ti.'

Gwthiodd Newmarsh y faner waedlyd i'w hwyneb. Ceisiodd y ferch rwygo'r faner o'i gwep, gwaed yn staenio'i dwylo.

Melltithiodd FitzWalter ei anallu i weithredu a ffrwyno'r bleiddiaid.

Dywedodd Newmarsh: 'Wyt ti am weld beth ddigwyddodd i dy dad? Gwylia, Ast Rhys.'

Towlodd Nest i'r llawr. Syllodd y ferch ar y gwaed ar ei dwylo.

Galwodd Newmarsh filwr ato. Daeth un ymlaen gydag iPad. Trodd y milwr y teclyn ymlaen. Chwaraeodd Newmarsh fideo.

